OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 724 (Cy.96)

# ADDYSG CYMRU

## Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 132, 145 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), wedi ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 132(4) o'r Ddeddf honno, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 2002 p.32. Ystyr "Regulations" yn adrannau 132 a 145 yw rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 212(1)). Mae diwygiadau i adran 145 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 1998 p.30. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.